Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Ymweliad â Charchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc:
Nodiadau cryno

Ionawr 2019

## 1. Y cefndir

**1.** Aeth y Pwyllgor ar ymweliad â Charchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc fel rhan o'i ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion. Daeth pob un o wyth Aelod y Pwyllgor ar yr ymweliad.

**2.** Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r trafodaethau a'r safbwyntiau a glywyd yn ystod yr ymweliad.

## 2. Trafodaethau gyda'r carcharorion

### Grŵp 1: John Griffiths (Cadeirydd), Mohammad Asghar, Gareth Bennett a Carwyn Jones

**3.** Siaradodd Grŵp 1 â'r carcharorion ar y bloc 'llesiant', lle mae gan garcharorion freintiau uwch y maent yn eu hennill drwy eu hymddygiad tra'u bod yn y Parc.

#### Dadleuon o blaid ac yn erbyn

**4.** Roedd y mwyafrif o blaid rhoi'r bleidlais i garcharorion. Dywedodd un person fod hyn yn hanfodol ac yn dweud eu bod yn cadw eu hawliau dynol er eu bod yn y carchar. Roedd hefyd yn teimlo y byddai rhoi'r bleidlais i garcharorion yn helpu i wella eu hurddas a pharch.

**5.** Roedd un arall yn gwrthddadlau ynghylch a ddylai carcharorion gael pleidleisio. Awgrymodd, er mai dim ond am flwyddyn y cafodd ei garcharu, ei fod yn cael ei dynnu allan o gymdeithas am y cyfnod hwnnw.

**6.** Tynnwyd sylw at brofiad refferendwm annibyniaeth yr Alban, a bod rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16-17 oed wedi gwneud i wleidyddion ymgysylltu'n well â'r grŵp hwn. Awgrymwyd, pe bai'r bleidlais yn cael ei rhoi i garcharorion, y byddai'n rhaid i wleidyddion ddechrau ymgysylltu â charcharorion a'r materion sy'n bwysig iddyn nhw.

**7.** Dywedodd rhai, er eu bod yn y carchar, eu bod yn dal i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus ac y dylent gael y cyfle i gyfrannu at ddewis pwy sy'n eu rhedeg.

**8.** Dywedodd nifer o'r carcharorion, er eu bod yn y carchar, fod ganddynt deulu a ffrindiau y tu allan o hyd, a bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan wleidyddion yn effeithio arnyn nhw. Hefyd, fe wnaethant ddweud y byddai'n helpu iddynt deimlo cysylltiad â chymdeithas. Fe wnaethom ni hefyd glywed fod teuluoedd carcharorion yn dal i fod eisiau cynnwys yr aelod o'u teulu sydd yn y carchar yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn ag i bwy y dylent bleidleisio.

**9.** Tynnwyd sylw at y mater trethiant a chynrychiolaeth, gyda dau garcharor yn dweud eu bod wedi talu trethi gydol eu hoes, ac yn achos un carcharor yn parhau i dalu trethi tra'i fod yn y carchar, ac y dylid cadw'r hawl.

**10.** Cafwyd trafodaeth ynghylch anghysondebau wrth ddedfrydu. Yn benodol, y ffaith y gall dau berson sydd wedi cyflawni'r un drosedd gael dedfrydau gwahanol, gydag un yn cael dedfryd o garchar, ac yn colli'r bleidlais, a'r llall yn cael dedfryd gymunedol, ac felly'n cadw'r hawl i bleidleisio. Disgrifiwyd hyn fel lwc pur am yr un trosedd. Awgrymwyd mai'r unig wahaniaeth yn yr achosion hyn oedd rhwystr ffisegol muriau'r carchar.

**11.** Fe wnaethom ni glywed fod yna gamsyniad bod carcharorion yn anwybodus am wleidyddiaeth. Un o'r rhaglenni teledu mwyaf poblogaidd ar yr adain hon oedd Politics Live. Dywedodd un carcharor ei fod gwneud yn siŵr ei fod yn gwybod beth sy'n digwydd.

**12.** Disgrifiodd un carcharor sut y byddai rhoi'r bleidlais i garcharorion yn ychwanegu at eu sylfaen emosiynol ac y byddai'n helpu i'w meithrin. Disgrifiodd sut y gallai helpu i leihau problemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, oherwydd y gallai helpu i wella hunan barch a'u grymuso.

**13.** Dywedodd un carcharor nad yw'r polisïau cyfredol yn gweithio, gan fod poblogaeth y carchardai yn cynyddu ar gyfradd llawer uwch na thwf y boblogaeth.  Awgrymodd hefyd bod caethwasiaeth wedi bod yn arfer yn y gorffennol, ac na ddylem ailadrodd heddiw yr hyn a ddigwyddodd ddoe.

**14.** Fe wnaethom glywed y gallai rhoi'r bleidlais leihau rhywfaint o'r chwerwder y gall rhai carcharorion ei deimlo am y system gyfiawnder.

**15.** Dywedodd un carcharor fod carcharorion yn caru eu gwlad ac felly dylai fod ganddynt yr hawl i bleidleisio.

## Materion ymarferol

**16.** Dywedodd nifer o garcharorion, er bod y logisteg yn anodd, mai mater i wleidyddion gytuno arno yw hwn.

**17.** Cafwyd trafodaeth ynghylch ym mha gyfeiriad y byddai carcharor yn cael ei gofrestru i bleidleisio. Dywedodd un pe bai'n rhaid i garcharor gofrestru yn ei gyfeiriad carchar y gallai gael effaith sylweddol ar etholaethau unigol, a sut y gallai ymgeiswyr ymateb i faterion yn ymwneud â pholisi carchardai (yr enghraifft a roddwyd oedd y carchar arfaethedig ym Maglan).

**18.** Awgrymwyd y gellid gosod unrhyw fodel ar gyfer pleidleisio ar sail debyg i'r hyn a geir i'r rheini sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn y DU, ond sy'n byw dramor.

**19.** Trafodwyd pa garcharorion ddylai gael y bleidlais, ac a ddylai hyd y ddedfryd/y math o drosedd fod yn ffactorau. Soniwyd eto am amrywiadau mewn dedfrydu, gan gynnwys y ffaith bod pledio'n euog neu'n ddieuog yn effeithio ar hyd y ddedfryd.

**20.** Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylai barnwyr benderfynu a yw pleidlais yn cael ei chadw ai peidio adeg collfarnu, ond roedd nifer yn teimlo bod gan farnwyr ddigon o bŵer ac y gallai arwain at anghysondebau o ran gweithredu. Dywedodd un arall fod hyn yn syniad ofnadwy.

**21.** Un syniad a awgrymwyd oedd y byddai carcharor yn gymwys i bleidleisio os yw i fod i gael ei ryddhau yn ystod tymor canlyniad yr etholiad hwnnw. Er enghraifft, os oeddech chi i fod i gael eich rhyddhau yn 2021, byddech chi'n gymwys i bleidleisio mewn etholiad ar gyfer sefydliad pedair neu bum mlynedd pe bai'r etholiad yn cael ei gynnal yn 2019. Awgrymwyd hyn fel ffordd o weithredu oherwydd y byddai'r etholiad hwnnw'n effeithio arnoch chi'n uniongyrchol. O'r

holl syniadau gwahanol a drafodwyd ynglŷn â phwy ddylai cael pleidleisio, dyma'r un a gafodd y mwyaf o gefnogaeth.

**22.** Awgrymodd eraill y dylai'r math o drosedd fod yn ffactor wrth wneud penderfyniad. Disgrifiodd un carcharor y sbectrwm troseddu, gan ddweud na ddylid cael cadw hawliau pleidleisio ar un pen o'r sbectrwm hwn. Hefyd, trafodwyd y ffaith bod hyd y ddedfryd yn tueddu i ddilyn difrifoldeb y drosedd.

**23.** Cafwyd trafodaeth hefyd ar sut y gallai carcharorion gael gwybodaeth i wneud penderfyniad am bleidleisio. Fe wnaethom ni glywed y gallai hyn fod drwy gyfryngau sefydledig fel teledu a chyfryngau print (gan gynnwys papurau newydd cenedlaethol a lleol).

**24.** Dywedodd un carcharor y byddai taflenni sydd ond yn cael eu hanfon drwy'r post yn cael eu hanwybyddu, ond y byddai gwleidyddion sy'n ymgyrchu'n galed, er enghraifft yn dod i'r carchar i gwrdd â charcharorion, yn ennill mwy o bleidleisiau. Roedd cefnogaeth o ran cael gwleidyddion yn dod i siarad yn uniongyrchol â charcharorion.

## Grŵp 2: Jenny Rathbone, Leanne Wood, Huw Irranca-Davies a Mark Isherwood.

**25.** *Dewiswyd y grŵp o garcharorion gan staff o'r bloc addysg – roedd pob un ohonynt yn fentoriaid. Safbwyntiau'r carcharorion yw'r rhai a fynegir isod.*

### Dadleuon o blaid ac yn erbyn (a chynnwys cyfyngiad yn ôl hyd y ddedfryd ac ati yn y categori hwn)

**26.** Dywedodd rhai cyfranogwyr fod pleidleisio yn hawl ddynol sylfaenol ac na ddylai carcharorion gael eu hamddifadu o'r cyfle i gael dweud eu dweud. Codwyd y mater o farwolaeth ddinesig, gydag un carcharor o'r farn nad yw'r cysyniad o'r 1800au yn addas i gymdeithas fodern.

**27.** Ar y naill law, dywedir wrth garcharorion bod carchar yn ymwneud ag adsefydlu ac ailintegreiddio, ond ar y llaw arall dywedir wrthynt na ellir ymddiried ynddynt i bleidleisio. Byddai carcharorion yn teimlo mwy o gysylltiad â chymdeithas pe bai ganddynt yr hawl i bleidleisio.

**28.** Gwnaed y pwynt bod dewisiadau gwleidyddol yn effeithio ar fywydau plant a theuluoedd carcharorion – byddent yn dymuno'r gorau iddynt. Er nad yw carcharorion yn cymryd rhan mewn cymdeithas, nid yw'n golygu nad oes ganddynt ran ynddi.

**29.** Mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan lywodraethau ynghylch rhedeg carchardai yn cael effaith uniongyrchol ar garcharorion. Fodd bynnag, gan nad yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli, ni fyddai pleidleisio mewn etholiad Cynulliad neu etholiad llywodraeth leol yng Nghymru yn rhoi llais i garcharorion ar y materion sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol yn y carchar.

**30.** Mae gan garcharorion sy'n cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro yr hawl i bleidleisio, ond gellid ystyried bod hyn yn anghyson gan eu bod yn dal i gwblhau eu dedfryd yn y gymuned.

**31.** Mynegwyd pryderon ynglŷn â gwleidyddion yn defnyddio cyfyngiadau ar bleidleisio fel ffordd o ennill pleidleisiau. Nododd un carcharor fod gwleidyddion yn cael eu hystyried yn galed ar drosedd os ydyn nhw'n galed ar garcharorion, ni waeth beth yw'r dull mwyaf effeithiol.

**32.** Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a ddylid rhoi'r bleidlais i bob carcharor.

**33.** Roedd rhai'n credu na ddylai'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau 'gwrth-ddemocrataidd' (fel terfysgaeth) gael pleidleisio. Nododd eraill na ddylai'r rheini a oedd mewn sefyllfa o bŵer adeg cyflawni'r drosedd gael yr hawl i bleidleisio. Codwyd y mater o wrthod y bleidlais i'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau 'moesol ddrwg' – er y gallai fod yn anodd penderfynu beth sydd yn y categori hwn gan ei fod yn agored i ddehongliad.

**34.** Dywedodd eraill y dylai pob carcharor gael pleidleisio, ni waeth beth fo'r drosedd, hyd y ddedfryd na'r dyddiad rhyddhau. Mynegwyd pryderon y gallai unrhyw beth arall fod yn wahaniaethol ac, ar lefel ymarferol, y byddai'n haws rhoi pleidlais i bob carcharor neu ddim o gwbl.

**35.** Nid oedd rhai o'r cyfranwyr yn credu y dylai dedfryd hir atal carcharor rhag cael pleidleisio.

**36.** Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn pleidleisio, dywedodd dros hanner y carcharorion a oedd yn bresennol y bydden nhw'n gwneud hynny. Fodd bynnag, dywedodd rhai eu bod yn credu na fyddai llawer o garcharorion eraill yn pleidleisio ac efallai y byddai'r rhai a oedd eisoes yn pleidleisio cyn cael eu carcharu yn parhau i wneud hynny yn y carchar.

**37.** Dywedodd un carcharor, er nad oedd yn pleidleisio pan nad oedd yn y carchar, o gael y cyfle, y byddai'n gwneud hynny nawr gan ei fod yn teimlo nad oedd ganddo lais yn ei fywyd ei hun. Byddai rhoi'r bleidlais i garcharorion yn rhoi dewis iddynt – gallai pleidleisio yn y carchar fod yn bwysicach na thu allan i'r

carchar, oherwydd y gallai penderfyniadau gan wleidyddion gael effaith ar fywyd yn y carchar.

**38.** Roedd un carcharor o'r farn y gallai'r hawl i bleidleisio fod yn bwysicach yn y carchar na'r tu allan, gan mai hwn fyddai'r unig reolaeth sydd ganddynt ar y byd y tu hwnt i'w fywyd yn y carchar.

**39.** Dywedodd un arall fod llawer o bobl ddeallus yn y carchar. Mae carcharorion yn cael cyfle i gwrdd â phobl na fyddent wedi cwrdd â nhw ar y tu allan a gallant ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae ganddynt lawer i'w ddweud ond nid yw eu lleisiau'n cael eu clywed. Pe byddent yn cael pleidleisio, byddent yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.

**40.** Nododd un carcharor ei fod yn y carchar **fel** cosb, nid **i gael** cosb, a'i fod yn credu bod dileu hawliau pleidleisio yn gosb ychwanegol a mympwyol.

## Ystyriaethau ymarferol (cyfeiriad cofrestru, dull pleidleisio ac ati)

**41.** Roedd rhai o blaid defnyddio cyfeiriad y carchar i gofrestru i bleidleisio, o ystyried ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer popeth arall, a'u bod yn bwyta, cysgu a gweithio yn y cyfeiriad hwnnw.

**42.** Fodd bynnag, dywedodd eraill y byddai'n well ganddynt gofrestru i bleidleisio yn eu cyfeiriadau cartref gan y byddai'n well ganddynt y byddai eu pleidlais yn cael effaith yn yr ardal y maent yn dod ohoni, lle mae eu teuluoedd yn byw ynddi a lle byddant yn dychwelyd.

**43.** Roedd rhai hefyd yn credu y byddai'n dda cael y dewis, fel y mae myfyrwyr, sy'n cael dewis cofrestru yn eu cyfeiriadau yn ystod y tymor neu eu cyfeiriadau cartref.

**44.** O ran dulliau pleidleisio, dywedodd rhai y byddai amrywiad ar system y bleidlais bost yn syniad da gan ei bod eisoes yn bodoli ac yn gweithio.

## Ymgysylltiad gwleidyddol (ymgyrchu, canfasio ac ati)

**45.** Dywedodd rhai y byddai addysg yn elfen bwysig o ran rhoi'r bleidlais i garcharorion. Mae angen dosbarthiadau cyfrifoldeb cymdeithasol gan fod diffyg addysg yn arwain at fwy o droseddu. Fe wnaethant ddweud hefyd nad yw llawer o garcharorion yn gwybod sut mae'r system etholiadol yn gweithio. Gall gwleidyddiaeth fod yn bwnc brawychus ac yn aml nid yw pobl yn gwybod i beth maen nhw'n pleidleisio, felly byddai addysg yn allweddol.

**46.** Dywedodd rhai eu bod yn teimlo'n wybodus yn wleidyddol, efallai yn fwy nag oedden nhw cyn eu carcharu, gan fod ganddynt fwy o amser i ddarllen, meddwl a gwylio'r teledu. Fodd bynnag, roedd llawer yn teimlo diffyg cysylltiad â gwleidyddiaeth leol.

**47.** Awgrymwyd y dylai gwleidyddion ddod â thaflenni i garchardai a'u dosbarthu i fentoriaid.

**48.** Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn dod i sesiynau holi ac ateb gyda gwleidyddion, dywedodd y mwyafrif y byddent. Byddent yn hoffi cael eu gwybodaeth yn uniongyrchol gan wleidyddion a chael y cyfle i ofyn am y pynciau sy'n bwysig iddyn nhw. Dywedodd un y byddai'n well clywed yn syth o lygad y ffynnon yn hytrach na thrwy hidlydd newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol.

**49.** Nodwyd bod materion ynghylch ymddieithrio gwleidyddol a diffyg addysg wleidyddol yn faterion yr un mor bwysig y tu allan i'r carchar ag yn y carchar.

**50.** Ar ddiwedd y sesiwn, dywedodd y cyfranwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael rhywun i wrando a chael mynegi eu barn.

# 3. Trafodaethau â staff

**51.** Roedd holl Aelodau'r Pwyllgor a oedd yno yn bresennol ar gyfer y drafodaeth hon. Fe wnaeth Aelodau'r Cynulliad gwrdd ag aelodau amrywiol o staff y carchar. Safbwyntiau'r staff yw'r rhai a fynegir isod.

## Dadleuon o blaid ac yn erbyn

**52.** Dywedodd un aelod o staff fod y bleidlais i garcharorion yn symbol pwysig i garcharorion ac i gymdeithas ehangach, a hynny i ddangos bod carcharorion yn parhau i fod yn rhan o gymdeithas ac yn ddinasyddion.

**53.** Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag i ba raddau y gellir gweld bod carcharorion wedi'u hynysu o gymdeithas. Eto i gyd, pan fydd pobl yn clywed straeon gan garcharorion unigol, mae hynny weithiau'n newid canfyddiadau.

**54.** Carchar yw'r gosb ddiofyn yn y DU – efallai y dylai hyn newid, ac mae rôl carchardai rhwng dwy stôl adsefydlu a chosbi – ac mae tueddiad i glywed siarad mwy caled am gosbi a dedfrydu yn ystod y cyfnod yn arwain at etholiad cyffredinol.

**55.** Mae carcharorion yn dal i fod â chysylltiad â'u cymunedau drwy eu ffrindiau a'u teuluoedd, ac felly mae ganddynt ddiddordeb yn effaith penderfyniadau arnynt.

**56.** Awgrymodd un aelod o staff y dylid arwahanu'r hawl i bleidleisio – er enghraifft, dylid rhoi'r hawl i garcharorion yn ystod pum mlynedd olaf eu dedfryd. Byddai hyn yn helpu carcharorion i ddechrau ailintegreiddio mewn cymdeithas.

**57.** Awgrymwyd na fyddai carcharorion yn pleidleisio beth bynnag. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai un blaid wleidyddol fynd ati i ennill pleidlais carcharorion drwy ymrwymo i ddiwygio carchardai.

**58.** Fodd bynnag, roedd eraill yn dadlau fod hyn yn annhebygol oherwydd y gallai polisi o'r fath arwain at golli pleidleisiau ymhlith etholwyr eraill. Cytunwyd bod etholwyr yn gyffredinol yn pleidleisio er eu lles eu hunain.

**59.** Yn gyffredinol, roedd y staff o blaid rhoi'r bleidlais i garcharorion. Roedd llawer yn cytuno y dylai pob carcharor gael yr hawl i bleidleisio, ond nid oedd consensws ar y pwynt hwn. Dywedodd un, os oedd rhoi'r bleidlais i garcharorion yn cynnwys elfen o adsefydlu, y dylid rhoi'r bleidlais i bob carcharor.

## Ystyriaethau ymarferol (cyfeiriad cofrestru, dull pleidleisio ac ati)

**60.** Mynegodd staff bryderon ynghylch ble y byddai carcharorion yn pleidleisio. Awgrymwyd system hybrid, a gallai carcharorion â chyfeiriad cartref gofrestru yno, a'r rhai heb gyfeiriad cartref yn cael eu cofrestru yng nghyfeiriad y carchar.

**61.** Roedd cytundeb cyffredinol bod unrhyw awgrym i gofrestru pob carcharor yng nghyfeiriad y carchar yn rhywbeth i fod yn ofalus yn ei gylch.

**62.** Codwyd y mater o garcharorion sy’n aros eu prawf yn y ddalfa. Gall carcharorion sy’n aros eu prawf yn y ddalfa bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, ond mae'n rhaid iddynt drefnu hyn eu hunain. Nid yw llawer yn gwneud hynny oherwydd ei fod yn anodd. Problem benodol yw bod hyn fel arfer yn cael ei wneud dros y we. Mae carcharorion sy’n aros eu prawf yn y ddalfa wedi'u cofrestru i bleidleisio yn eu cyfeiriad cartref, ac mae hyn yn gosod cynsail.

## Ymgysylltiad gwleidyddol (ymgyrchu, canfasio ac ati)

**63.** Pan ofynnwyd iddynt am drefnu hystingau yn y carchar, dywedodd staff eu bod yn gyfarwydd â dod â phobl ac asiantaethau allanol i mewn i'r carchar, felly byddai'r un system yn cael ei dilyn.

**64.** Dim ond hystingau gyda grwpiau bach o garcharorion y byddai modd eu cynnal am resymau diogelwch. Felly byddai angen eu cynnal dros gyfnod o amser.

**65.** Hefyd byddai 'Inside Times', sef cylchgrawn y carchar, a gorsaf radio fewnol y carchar, ill dau'n ffordd o gyfathrebu â charcharorion.

**66.** Cafwyd trafodaeth sylweddol ynghylch ymgysylltu â charcharorion, tra'n diogelu rôl anwleidyddol y carchar o ran cefnogi carcharorion. Awgrymwyd y byddai angen ffordd annibynnol o ddiogelu'r broses o gyfathrebu â charcharorion. Roedd hyn yn dilyn pryderon gan un aelod o staff am grwpiau gwleidyddol eithafol yn targedu pleidleisiau carcharorion.

**67.** Mae gan garcharorion fynediad at deledu, radio a phapurau newydd (lleol a chenedlaethol) er mwyn cael gwybodaeth gyffredinol am etholiadau a gwleidyddiaeth.

**68.** Pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl y tîm addysg – gallai'r tîm hwyluso trafodaethau ar wahanol bynciau pe bai carcharorion yn cael yr hawl i bleidleisio. Fe wnaethant ddweud y gallai'r tîm addysg siarad â charcharorion yn gyffredinol, heb gael ei dynnu i mewn i wleidyddiaeth bleidiol.

**69.** Fe wnaeth staff godi'r pwynt nad yw pleidleiswyr ar y tu allan o reidrwydd yn wybodus nac wedi'u haddysgu am faterion gwleidyddol. Cawsom ein hatgoffa fod popeth rydych chi'n ei ddweud ar gyfer carcharorion hefyd yn gymwys i'r boblogaeth gyffredinol.

## 3. Trafodaeth gyda chyfarwyddwr y carchar

**70.** Fe wnaeth Aelodau'r Cynulliad gwrdd â chyfarwyddwr y carchar. Ei barn bersonol hi yw'r safbwyntiau a fynegir isod ac nid rhai Carchar y Parc.

### Dadleuon o blaid ac yn erbyn

**71.** Dywedodd y cyfarwyddwr, pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i ganiatáu i'r carcharorion bleidleisio, y byddai'r carchar yn gwneud i hynny weithio'n logistaidd.

**72.** Dywedodd mai ei barn bersonol yw y dylai pob carcharor gael yr hawl i bleidleisio. Yn y pen draw, bydd y rhan fwyaf o garcharorion yn rhan o gymuned unwaith eto. Dywedodd fod llawer o'r gwaith yn y carchar yn ymwneud â diogelu hawliau sylfaenol, ac y byddai hyn yn estyniad pellach o'r gwaith o gefnogi hawliau dynol carcharorion.

**73.** Roedd hi'n credu bod y gwaharddiad ar y bleidlais i garcharorion yn anghysondeb, a bod bod yn y carchar yn amherthnasol o safbwynt cael y bleidlais. Mae ganddi bryderon ynghylch ble caiff y llinell ei thynnu os na fyddai pob carcharor yn cael yr hawl i bleidleisio.

**74.** Tynnwyd sylw at anghysondebau yn y system bresennol, gan gynnwys y ffaith bod y rheini yn aros am eu prawf yn y ddalfa yn cael pleidleisio, ond y gallent fod yn wynebu dedfryd drom os cânt eu dyfarnu'n euog, ac nad oes gan garcharor arall yr hawl i bleidleisio oherwydd ei fod yn cwblhau dedfryd fer.

**75.** Mae carchar yn drawstoriad o gymdeithas. Dywedodd y byddai'n rhaid i benderfyniad i roi'r bleidlais i garcharorion fod yn ddigon dewr i'w rhoi i bawb, yn hytrach na'i chyfyngu i grwpiau penodol.

**76.** Byddai cysylltu'r bleidlais â hyd y ddedfryd yn gymhleth oherwydd bod modd byrhau dedfrydau a rhyddhau carcharorion yn gynnar neu ar barôl.

## Ystyriaethau ymarferol (cyfeiriad cofrestru, dull pleidleisio ac ati)

**77.** Ar y cyfan, roedd hi'n glir, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i roi'r bleidlais i garcharorion, y byddai carchardai yn sicrhau bod modd gweinyddu hyn.

**78.** Gallai fod yn anodd gweinyddu pleidleisiau drwy'r post, ond ni fyddai hyn yn anorchfygol. Byddai'n rhaid i staff y carchar ddod o hyd i ffordd o sgrinio'r post er mwyn sicrhau nad oedd dim byd arall yn yr amlen, gan gadw cyfrinachedd y broses pleidleisio drwy'r post ar yr un pryd. Byddai angen gwneud trefniadau ar wahân, felly efallai y byddai'n rhaid defnyddio'r trefniadau i garcharorion anfon post i gyfreithwyr, sydd hefyd yn gyfrinachol.

**79.** Mae yna opsiwn o bleidleisio yn y carchar drwy un orsaf bleidleisio neu orsafoedd pleidleisio ar draws y carchar (byddai hyn yn well).

**80.** Byddai'n rhesymegol defnyddio'r cyfeiriad hysbys diwethaf i gofrestru i bleidleisio, ac y gallai carcharorion nad oedd ganddynt gartref sefydlog cyn eu carcharu gael eu cofrestru i bleidleisio yng nghyfeiriad y carchar.

## Ymgysylltiad gwleidyddol (ymgyrchu, canfasio ac ati)

**81.** Byddai angen gweithio i godi ymwybyddiaeth a darparu addysg wleidyddol yn y carchar. Byddai'r carchar yn awyddus i gysylltu â phobl a allai ddod i mewn i gwrdd â charcharorion fel rhan o addysg dinasyddiaeth.

Y tîm clercio

Ionawr 2019